

Darparwyr: Cwestiynau Cyffredin

Rhan dau o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth a'r Adolygiad Ansawdd Gofal

Pam y mae angen imi gwblhau rhan dau o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth?

Mae'n ofynnol i chi wneud hynny dan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Rheoliad 16 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, ac
- Adran 44 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Pwy ddylai gwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ar gyfer gwasanaeth?

Mae'n ofynnol i'r Person Cofrestredig neu'r Unigolyn Cyfrifol gwblhau a chyflwyno rhan un o'ch Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth a/neu ran dau ar gyfer eich gwasanaeth(au), gan gynnwys eich Adolygiad Ansawdd Gofal ar gyfer 2016/17.

Sut y mae AGGCC yn defnyddio'r wybodaeth?

Byddwn yn defnyddio rhan un a rhan dau o'ch Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, gan gynnwys eich Adolygiad Ansawdd Gofal, i asesu eich cydymffuriad â Rheoliad 16 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, ac Adran 44 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Bydd y wybodaeth a gasglwyd yn helpu ein harolygwyr i roi blaenoriaeth i feysydd ar gyfer ymholiadau pellach fel rhan o'u gwaith cynllunio arolygiadau. Bydd y wybodaeth hefyd yn darparu tystiolaeth o ansawdd eich gwasanaeth. Mae hunanasesu'n bwysig i'ch helpu chi i ystyried y ffordd orau o gynnal a gwella eich gwasanaeth.

Bydd yr arolygydd yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud y canlynol:

- Cynllunio ar gyfer arolygiad;
- Dylanwadu ar ba agweddau ar eich gwasanaeth y dylid eu blaenoriaethu a'u harolygu;
- Gwneud penderfyniad ynghylch nifer yr arolygwyr y gallem eu hanfon i arolygu eich gwasanaeth;

- Fel tystiolaeth pan ydym yn gwneud dyfarniadau (a rhoi sgorau) ynghylch eich gwasanaeth;
- Cadarnhau bod y manylion am eich cofrestriad yn gywir.

Pwy sydd wedi ei eithrio rhag cwblhau ffurflen Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth?

- Gwasanaethau sydd wedi atal eu gweithrediadau dros dro ac sydd wedi ein hysbysu am hynny
- Gwasanaethau a gofrestrodd â ni ar ôl 1 Gorffennaf 2016

A gaf ddefnyddio fy Natganiad Hunanasesu Gwasanaeth i hysbysu AGGCC am newidiadau i'm cofrestriad neu ddigwyddiadau allweddol?

Na chewch, bydd yn rhaid ichi ein hysbysu am unrhyw newidiadau i'ch cofrestriad neu ddigwyddiadau allweddol drwy ddefnyddio ein ffurflenni hysbysu – ewch i'r adran ffurflenni hysbysu ar ein gwefan i gael mwy o wybodaeth.

Pa bryd y mae'n rhaid imi gyflwyno fy Natganiad Hunanasesu Gwasanaeth, gan gynnwys fy Adolygiad Ansawdd Gofal?

Mae'n rhaid ichi wneud hyn drwy ddefnyddio AGGCC Ar-lein **erbyn 21 Gorffennaf 2017**. Cyfrifoldeb y Person Cofrestredig neu'r Unigolyn Cyfrifol yw cyflwyno ffurflen.

Beth fydd yn digwydd os na chwblheir Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ar gyfer gwasanaeth?

Mae'n ofyniad cyfreithiol i gwblhau eich Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Gallai peidio â dychwelyd eich Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth wedi ei lenwi erbyn 21 Gorffennaf 2017 arwain at gamau gorfodi.

Bydd peidio â dychwelyd eich Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth hefyd yn cael ei ystyried fel rhan o ddyfarniad yr arolygydd (a'r sgorau dilynol) ynghylch thema Arweinyddiaeth a Rheolaeth eich arolygiad.

Beth yw fy nghyfrifoldeb cyfreithiol?

Mae gennych gyfrifoldeb cyfreithiol i ni ynghylch rhai newidiadau a digwyddiadau allweddol sy'n digwydd yn eich gwasanaeth, os nad ydych bellach yn cynnig gwasanaeth neu os ydych yn dymuno atal eich cofrestriad dros dro. Gall y rhain gynnwys:

- newid y cyfeiriad lle yr ydych yn cynnig gofal dydd
- anaf difrifol, neu salwch difrifol neu farwolaeth unrhyw blentyn neu unrhyw unigolyn arall ar y safle

- achos o unrhyw glefyd heintus yn y safle perthnasol
- pe byddech chi neu unrhyw aelod o staff a gyflogir gennych yn cael eich euogfarnu o **unrhyw drosedd**

Cwblhau eich Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth a chymorth technegol

Rwyf wedi cyflwyno rhan un o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Beth ydw i'n ei wneud nesaf?

Mae'n ofynnol ichi gwblhau rhan dau o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Gallwch hefyd weld a lawrlwytho copi PDF o'ch ffurflenni Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth a gyflwynwyd gennych yn flaenorol.

Wnes i ddim cyflwyno rhan un o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Beth ydw i'n ei wneud nesaf?

Os na chyflwynoch chi ran un o'ch Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, bydd yn ofynnol ichi gwblhau **rhan un a rhan dau** o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Mae gennych **hyd at 21 Gorffennaf i gwblhau'r ddwy ran** o'ch Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Noder y dilëir unrhyw wybodaeth a roddwyd yn flaenorol yn rhan un o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth.

Cyflwynais ran un o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, ond derbyniais lythyr yn nodi nad wyf i wedi ei gwblhau.

Os na dderbynioch chi e-bost cydnabod oddi wrthym pan gyflwynoch chi ran un o'ch Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, mae hyn yn golygu na chyflwynwyd eich Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ar y pryd, yn anffodus. O ganlyniad, mae 'heb ei gyflwyno' wedi ei nodi ar eich cofnod.

Wnes i ddim cyflwyno rhan un o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. A gaf i gwblhau rhan dau o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, fodd bynnag, gan gynnwys fy Adolygiad Ansawdd Gofal?

Na chewch, chewch chi ddim cwblhau rhan dau o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth na'ch Adolygiad Ansawdd Gofal heb gyflwyno rhan un o'ch Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth yn gyntaf. Bydd yn dal i fod yn ofynnol ichi gwblhau rhan un ar yr un adeg ag yr ydych yn cwblhau rhan dau ar ddechrau mis Mehefin 2017.

AGGCC Ar-lein

Pa bryd y caf fynediad at AGGCC Ar-lein?

Bydd AGGCC Ar-lein ar gael o 7 Mehefin 2017 ymlaen gan ganiatáu ichi gwblhau a chyflwyno eich ffurflen Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Mae'n

rhaid ichi gyflwyno eich Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth erbyn 21 Gorffennaf 2017.

Rwyf wedi creu cyfrif AGGCC Ar-lein, ond a allaf ddal i'w gyrchu?

Gallwch, gallwch gyrchu eich cyfrif AGGCC Ar-lein ac edrych ar eich manylion personol a'u golygu ar unrhyw adeg.

Ble y gallaf ddod o hyd i fwy o wybodaeth?

I gael mwy o wybodaeth am gwblhau eich Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, ewch i dudalen 'Hunanasesu' ein gwefan.

(<http://cssiw.org.uk/providingacareservice/already-registered-services/sass/?skip=1&lang=cy>)

Mae angen cymorth arnaf fi i gael mynediad at AGGCC Ar-lein neu fy nghyfrif. Â phwy y dylwn gysylltu?

Os oes angen cymorth arnoch i ddefnyddio AGGCC Ar-lein, mae croeso ichi anfon e-bost atom neu ffonio ein llinell cymorth technegol ar 0300 025 6111 (Cymraeg) neu 0300 025 6222 (Saesneg).

Rwyf wedi anghofio fy enw defnyddiwr

Y cyfeiriad e-bost a ddefnyddiwyd gennych i greu eich cyfrif ar-lein yw eich enw defnyddiwr. Os nad ydych yn cofio eich enw defnyddiwr, byddwch cystal ag anfon e-bost atom neu ffoniwch ein llinell cymorth technegol ar 0300 025 6111 (Cymraeg) neu 0300 025 6222 (Saesneg). Bydd ein tîm cymorth yn eich arwain drwy nifer o gwestiynau diogelwch ac yn eich helpu i ganfod eich enw ddefnyddiwr.

Rwyf wedi anghofio fy nghyfrinair

Os ydych wedi anghofio eich cyfrinair, byddwch cystal â defnyddio'r ddolen gymorth ar-lein 'ddim yn gallu cyrchu eich cyfrif' a dilynwch y cyfarwyddiadau ar-lein.

Does gen i ddim cyfrif AGGCC Ar-lein. Sut y gallaf greu un?

Os nad oes gennych gyfrif AGGCC Ar-lein, bydd angen ichi greu cyfrif ar gyfer cwblhau a chyflwyno rhan un a rhan dau o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Oherwydd rhesymau diogelwch, mae'r wybodaeth hon wedi ei hanfon ar ffurf copi caled i'ch cyfeiriad personol.

Mae AGGCC Ar-lein yn gofyn imi am PIN (Rhif Adnabod Personol) cychwyn ond does gen i ddim un. Beth y dylwn ei wneud?

Mae PIN cychwyn wedi ei gynhyrchu a bydd ynghlwm wrth gefn eich llythyr. Os nad ydych wedi derbyn y llythyr, anfonwch [e-bost atom cssiw.online@wales.gsi.gov.uk](mailto:cssiw.online@wales.gsi.gov.uk) neu cysylltwch â'n llinell cymorth technegol ar 0300 025 6111 (Cymraeg) neu 0300 025 6222 (Saesneg).

Sut y byddaf yn gwybod a ydych wedi derbyn fy Natganiad Hunanasesu Gwasanaeth cyflawn?

Ar ôl ichi ei gyflwyno, byddwch yn derbyn e-bost hysbysiad oddi wrthym. Yn ogystal, bydd yr adran Hunanasesu o'ch cyfrif ar-lein yn dangos bod y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth wedi ei gyflwyno'n llwyddiannus, gan ddangos pa bryd y cyflwynwyd y ffurflen a phwy a'i cyflwynodd.

Sut y byddaf yn gwybod a ydych wedi derbyn fy Natganiad Hunanasesu Gwasanaeth cyflawn?

Ar ôl ichi ei gyflwyno, byddwch yn derbyn e-bost hysbysiad oddi wrthym. Yn ogystal, bydd yr adran Hunanasesu o'ch cyfrif ar-lein yn dangos bod y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth wedi ei gyflwyno'n llwyddiannus, gan ddangos pa bryd y cyflwynwyd y ffurflen a phwy a'i cyflwynodd.

Lanlwytho gwybodaeth

Sut rwyf yn lanlwytho dogfennau?

Mae rhan dau o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth yn gofyn ichi lanlwytho dwy ddogfen, sef eich Datganiad o Ddiben a'ch Adolygiad Ansawdd Gofal diweddaraf. I lanlwytho'r dogfennau hyn, dilynwch y camau canlynol:

1. Os ydych yn defnyddio cyfrifiadur neu liniadur, cadwch y dogfennau yn y llyfrgell ddogfennau.
 2. Pan fyddwch yn cwblhau'r adran berthnasol o ran dau o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, cliciwch ar y botwm '+ Choose'. Bydd eich llyfrgell ddogfennau yn agor.
 3. Dewch o hyd i'r ddogfen a dewiswch hi i gael ei lanlwytho.
 4. Bydd y llyfrgell ddogfennau'n cau wedyn ac arddangosir ar y sgrin y wybodaeth am y ddogfen a ddewiswyd, a bydd hyn yn cynnwys enw'r ddogfen a maint y ffeil.
 5. Cliciwch ar y botwm 'Upload'. Drwy wthio ar y botwm hwn, bydd y ddogfen yn cael ei hatodi wrth ffurflen rhan dau o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth.
- Rydych nawr wedi lanlwytho dogfen yn llwyddiannus.

Rydym wedi creu canllawiau i chi eu defnyddio.

<http://cssiw.org.uk/docs/cssiw/general/170531howtouploaddoccy.pdf>

Rwyf wedi lanlwytho'r ddogfen anghywir. A allaf ddiwygio neu lanlwytho fersiwn newydd?

Cyn gwrthio ar y botwm 'Upload', gallwch gadw dogfen arall dros ben y ddogfen sydd wedi ei lanlwytho ar y pryd. Dilynwch gamau 1 i 5 uchod.

Nodais wybodaeth anghywir yn fy ffurflen Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Beth y dylwn ei wneud?

Ni fyddwch yn gallu gwneud unrhyw newidiadau drwy AGGCC Ar-lein ar ôl ichi gyflwyno eich ffurflen Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Bydd angen ichi anfon e-bost atom gyda'r diwygiadau i cssiw.online@wales.gsi.gov.uk. Ni allwn dderbyn diwygiadau dros y ffôn.

Sut y gallaf gael copi o fy ffurflen(ni) Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth?

Os bydd cyflwyno eich Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth yn llwyddiant, bydd copi PDF o bob ffurflen unigol ar gael drwy eich cyfrif AGGCC Ar-lein. Gallwch agor, adolygu a chadw copi o'ch ffurflenni ar gyfer eich cofnodion.

Cymorth i chi

A oes gan AGGCC unrhyw ganllawiau i fy helpu i gwblhau fy ffurflen(ni) Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth?

Rydym wedi creu templed a chanllawiau i'ch helpu i gwblhau eich Adolygiad Ansawdd Gofal; mae'r rhain ar gael ar dudalen 'Hunanasesu' ein gwefan. Mae'r templed yn ddewisol, ond rydym yn argymhell yn gryf y dylech ei ddefnyddio er mwyn cysondeb.

<http://cssiw.org.uk/docs/cssiw/general/170227sassprt2guidancecy.pdf>

<http://cssiw.org.uk/docs/cssiw/general/170227qcrtemplatecy.pdf>

Pa gymorth arall sydd ar gael?

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda sefydliadau'r sector gofal plant a chwarae ar draws Cymru er mwyn eich helpu i gwblhau a chyflwyno eich Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch cwblhau rhan dau o'ch Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, byddwch cystal â chysylltu â'ch sefydliad sector lleol – Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar (PACEY), Chwarae Cymru, Clybiau Plant Cymru, Mudiad Meithrin – neu eich Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd lleol.

Byddwch cystal â chysylltu â'ch sefydliad ambarél/aelodaeth ac edrychwch ar eu gwefannau i gael mwy o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael ichi.